



Ein cyf/Our ref: VG/0061/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.wales

20 Chwefror 2023

Annwyl Huw,

Diolch yn fawr i chi ac aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ystyried y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol (Memoranda rhif 3 a rhif 4) ar gyfer Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU.

Rwy'n croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar 27 Ionawr, sy'n nodi bod aelodau'n cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod cymalau 157, 160 a 165, ac Atodlen 14 y Bil, fel y'u diwygiwyd yng Ngham Adroddiad Tŷ'r Cyffredin, yn cynnwys darpariaeth sydd â diben sydd o fewn cymhwysedd Deddfwriaethol Senedd Cymru, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.1(i).

Yn gywir,

Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.